**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus**
# Ceredigion
**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus**

Caru·Love Ceredigion

| Eitem | Dyddiad | |
|---|---|---|
| | 18/07/2024 | |
| Teitl | | Am |
| Adroddiad diweddaraf gan is-grŵp Tlodi BGC Ceredigion | | *Trafodaeth* |
| Crynodeb o'r Materion | | |

**Cyfarfodydd**
Mae'r is-grŵp Tlodi yn parhau i gwrdd bob chwarter. Rydym wedi adolygu aelodaeth y grŵp ac yn ddiweddar rydym wedi croesawu cynrychiolwyr o RAY Ceredigion, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Cymdeithas Tai Barcud a Chymdeithas Tai Wales and West.

**Cynllun Gwaith i'r Dyfodol**
Mae ein blaengynllun gwaith yn cefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-28 a Chynllun Tlodi Plant Llywodraeth Cymru. Mae ein blaengynllun gwaith ynghlwm fel Atodiad 1. Mae gennym ddau amcan:

1. Galluogi aelwydydd i leihau eu costau a gwneud y mwyaf o'u hincwm.
2. Cynyddu dealltwriaeth o dlodi lleol a gweithio i fynd i'r afael â stigma tlodi.

**Fideo Profiad Byw**
Rydym am greu fideo i dynnu sylw at sut beth yw bywyd i bobl sy'n byw ar incwm isel yng Ngheredigion. Rydym yn gobeithio ffilmio ym mis Medi 2024. Rydym wedi anfon neges at yr holl fannau croeso cynnes, banciau bwyd a chaffis cymunedol yng Ngheredigion i ofyn a allant ein helpu i ddod o hyd i wirfoddolwyr sy'n barod i gymryd rhan. Rydym wedi derbyn un ymateb cwrtais ond negyddol hyd yn hyn.

**Cynllun Cyfathrebu**
Rydym yn cyhoeddi bwletinau cost byw misol ac yn gwella'r dudalen we yn barhaus - Cymorth Costau Byw - Cyngor Sir Ceredigion

Gellir cyrchu bwletinau trwy'r dolenni isod:

Gorffennaf 2024 – 'Gweithgareddau gwyliau'r haf am ddim neu gost isel'

Mehefin 2024 – 'Cymorth gyda'r Blynyddoedd Cynnar'

Mai 2024 – 'Teithio a Thrafnidiaeth'

Ebrill 2024 – 'Cefnogaeth i Bobl Anabl'

**Cyllid**
Rydym wedi gwneud cais am £25,000 i grant Tlodi Plant Llywodraeth Cymru i wella'r ffordd y mae'r is-grŵp Tlodi yn ymgysylltu â staff, gwirfoddolwyr a defnyddwyr mannau croeso cynnes, caffis cymunedol a banciau bwyd. Os byddwn yn llwyddiannus, byddwn yn dechrau yn hydref 2024 ac yn gorffen erbyn 31 Mawrth 2025.

Mae'r prosiect yn ymwneud â chydweithio gwell – gan ddarparu rhywfaint o glud i helpu i weithio mewn ffordd cydgysylltiedig. Fodd bynnag, yr angen gwirioneddol yw cyllid tymor hir i dalu i ymarferwyr roi cyngor. Mae Cyngor ar Bopeth Ceredigion wedi datblygu Prosiect Tlodi Tanwydd newydd i gynyddu cyrhaeddiad ac effaith eu tîm ynni. Rydym wedi darparu e-bost cefnogol i helpu i ddangos yr angen am y math hwn o brosiect.

**Dangosfyrddau Data**
Bydd y dangosfyrddau Data Tlodi, a ddatblygwyd gan dîm Partneriaethau a Pherfformiad y Cyngor, yn cael eu hail gomisiynu yn ddiweddarach eleni. Defnyddir y dangosfyrddau gan yr is-grŵp Tlodi i dargedu adnoddau a nodi tueddiadau. Maent hefyd yn darparu data defnyddiol i gefnogi ceisiadau am gyllid. Mae'r drwydded gyfredol ar gyfer defnydd mewnol, gweithlu y Cyngor yn unig. Mae angen £5,000 ychwanegol y flwyddyn i ymestyn y drwydded i'w defnyddio gan bartneriaid allanol.

**Cwestiwn - a yw partneriaid BGC mewn sefyllfa i gronni rhywfaint o gyllideb i dalu am y gost o £5,000 y flwyddyn fel bod y Dangosfyrddau Data ar gael i bawb?**

| Goblygiadau ariannol |
|---|
| Incwm posibl o £25,000 (os yw ein cais i grant Tlodi Plant Llywodraeth Cymru yn llwyddiannus).<br>Gwariant posibl o £5,000 y flwyddyn os yw aelodau BGC yn cytuno. |
| **Argymhellion** |
| Bod BGC Ceredigion yn nodi cynnwys yr adroddiad hwn ac yn rhoi adborth priodol i'r is-grŵp Tlodi BGC. |
| **Atodiadau** |
| Blaengynllun Gwaith yr Is-grŵp Tlodi |
| **Swyddog Adrodd** |
| Cynghorydd Catrin MS Davies |